

Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod: 03.04.2018
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol: Y Cynghorwyr ; Pamela Jones, Danny Davies, Eirion Evans, Elfed Davies, Dylan Jones, Derick Lock, Arwel Nicholas, Cyngorydd Sir, Irfon Jones.
Ymddiheuriadau: Gethin Edwards.

Rhif Agenda	Nodiadau/ Penderfyniadau	I'w weithredu gan
Datgan Buddiannau	Neb	
Cofnodion	Cafwyd yn gywir – DD & EE	
Materion yn Codi	<p>Swyddfa Archwilio Cymru – Clerc wedi derbyn ateb l'w lythyr; ar ôl blwyddyn o oedi, oedd yn cynnwys ymddiheuriad at Gyngor Llanilar. Aeth y llythyr gwreiddiol ar goll oherwydd I SAC geisio ddod o hyd I lythyr oddi wrth Llanilar er mai oddi wrth Llanpumsaint y daeth. Clerc yn gofyn barn y Cynghorwyr ynglyn a pharhau gyda'r Audit Blynyddol wrth ystyried mor fach yw'r symiau ariannol. Clerc I ateb llythyr SAC a holi am beidio a dychwelyd yr Audit Blynyddol.</p> <p>Cyflog Prifweithredwr Sir Gâr – Clerc wedi ysgrifennu at Panel Annibynnol Cydnabyddiaethau Cymru oherwydd mai dyma'r Corff sydd yn gosod cyflogau swyddogion uwch Cyngorau ond heb gael ateb eto.</p> <p>Cynllun Gwella Trafnidiaeth Llanpumsaint – Diwedd Mis Mawrth wedi dod a'r cynllun heb ei gwblhau, Clerc I ysgrifennu at Ruth Mullen yn gofyn am eglurhad. Bu trafodaeth ymhellach ar gyflwr yr heolydd a dywedodd IJ mai ar San Steffan oedd y bai oherwydd nhw oedd yn gosod y terfynnau ar wariant.</p>	
Gohebiaeth	<p>Elan City – cwmni sydd yn gwneuthur arwyddion fflachio cyflymdra; efalli rhywbryd fyddde'r Cyngor yn meddwl gosod arwydd ar hyd heol y Neuadd.</p> <p>Un Llais Cymru – yn rhannu gwybodaeth fod byddarwch yn gallu arwain at gwallgofrwydd; cyswllt rhwng yr ymenydd yn derbyn llai o wybodaeth a llai o waith i'w brosesu.</p>	
Cynllunio	Dim	
Materion Ariannol	<p>Trywydd, cyfieithu; £75 – AN & DJ</p> <p>Cyflog y Clerc, £130.60 – DJ & ED</p> <p>Trydan a Goleuadau, £2,423.66 – ED & AN</p> <p>Swyddfa Archwilio Cymru, £225 – Clerc I ofyn am ostyngiad oherwydd y gwallau.</p>	
UFA	<p>DL – Dim</p> <p>DJ – Cyflwr gwael ar wyneb heol Rhiw Graig ac o Sgŵar</p>	

	<p>Nebo I Benllwyniorwg</p> <p>ED – Twll dal I fod ar ganol heol Penhill/Clover Hill ac ymylon yr heol gerllaw Bwthyn/Bancyn wedi mallu yn ddrwg.</p> <p>EE – Bins sbwriel y pentre yn gorlifo.</p> <p>IJ – Carafan Penrhiw Fach; adroddiad ar ddod. Holi beth oedd cyflymdra Band Eang Llanpumsaint.</p> <p>DD – Cyflwr gwael yr heol o Llanpumsaint I Llandysul.</p> <p>AN – Cyffordd Heol Ffynnon a Heol Cynwyl ger Cartref; twll mawr ar yr wyneb. Gwastraff yn cael ei ollwng mewn cilfannau ar hyd heol Calcut.</p>	
Cyfarfod yn gorffen	9.00yh	

<p>Cafwyd yn gywir :</p> <p>(Cadeirydd)</p> <p>Dyddiad :</p>	<p>Cafwyd yn gywir :</p> <p>(Ysgrifennydd)</p> <p>Dyddiad:</p>
--	--